



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwriaethol

DYDDIAD 12 Awst 2021

GAN Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

Gosodir y datganiad ysgrifenedig hwn o dan Reol Sefydlog 30 – Hysbysu mewn perthynas â Biliau Senedd y DU. Mae'n ymwneud â'r darpariaethau penodol ym Mil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwriaethol (y Bil), a fydd yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru, ond nad oes angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29 ar eu cyfer am nad oes gan Senedd Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r darpariaethau hynny. Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 19 Gorffennaf 2021.

Bydd angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ar gyfer darpariaethau eraill yn y Bil ynglŷn â swyddi barnwriaethol. Mae'r Cwnsler Cyffredinol [heddiw] wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a bydd yn ystyried cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol maes o law.

Mae pensiynau galwedigaethol yn fater a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cyfrifol ar gyfer pensiynau diffoddwyr tân yng Nghymru ac maent yn arfer swyddogaethau gweithredol yn y cyd-destun hwnnw.

Amcan y Polisi

Amcanion polisi'r Bil yw mynd i'r afael â gwahaniaethu a gododd ar ôl i gynlluniau pensiwn presennol y gwasanaeth cyhoeddus gael eu cau'n barhaol i aelodau penodol yn 2014-2016: gwneud newidiadau i gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall pob gweithiwr gwasanaeth cyhoeddus cymwys ymaelodi â chynllun buddiannau diffiniedig ar sail deg a chyfartal; sicrhau na chaiff buddiannau aelodau eu lleihau ar ôl cwblhau'r elfen o brisiadau 2016 a oedd yn ymwneud â rheoli costau; gwella telerau adnoddau barnwriaethol er mwyn helpu'r farnwriaeth i weithredu'n effeithiol; a rhoi pwerau i'r Trysorlys sefydlu cynllun pensiwn Datrys Asedau Cyfyngedig newydd i'r DU.

Darpariaethau perthnasol yn y Bil

Mae cymal 4 o'r Bil yn diffinio ystyr cynllun "Chapter 1" y cyfeirir ato drwy holl ddarpariaethau perthnasol y Bil. Er eglurder, mae cynllun gwaddol Pennod 1 yn cynnwys:-

- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (a elwir hefyd yn Gynllun 1992);
- Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) (a elwir hefyd yn Gynllun 2007).

Mae cynllun newydd Pennod 1 yn cynnwys:-

- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 (Cynllun 2015).

Mae'r Bil yn gwneud y darpariaethau canlynol sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru:

Cymal 5 (Dewis darpariaeth ôl-weithredol i wneud cais i wasanaeth a eithriwyd)

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chynllun gwaddol Pennod 1 er mwyn caniatáu ar gyfer adfer gwasanaeth a eithriwyd rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

Cymal 6 (Dewis ar unwaith i gael buddiannau'r cynllun newydd)

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chynllun gwaddol Pennod 1 i ddarparu y gall aelod sy'n bensiynwr neu fuddiolwr aelod ymadawedig ddewis cael buddiannau cynllun newydd Pennod 1 mewn perthynas â'i wasanaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 (gwasanaeth adferadwy)

Mae cymal 7 yn nodi'r amseriad a'r weithdrefn mewn perthynas â dewis a wneir o dan gymal 6 ac mae'n pennu'r hyn y caiff y cyfryw reoliadau ei gynnwys. Mae cymal 8 yn darparu, pan na wnaed unrhyw ddewis, y caiff rheoliadau cynllun wneud darpariaeth sy'n tybio bod dewis wedi cael ei wneud yn union cyn diwedd y cyfnod dewis os bydd amodau penodol wedi cael eu bodloni.

Cymal 9 (Dewis gohiriedig i gael buddiannau'r cynllun newydd)

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chynllun gwaddol Pennod 1 sy'n caniatáu gwneud dewis mewn perthynas â gwasanaeth adferadwy unigolion sy'n aelodau gweithredol neu'n aelodau gohiriedig pan ddaw cymal 2(1) o'r Bil i rym. Gelwir hyn yn "Sail dros Ddewis Gohiriedig" ac mae'n caniatáu i aelodau gweithredol ac aelodau gohiriedig ddewis ai buddiannau'r cynllun gwaddol Pennod 1 ynteu'r cynllun newydd Pennod 1 sydd fwyaf buddiol iddynt ar adeg ymddeol.

Mae cymal 10 yn nodi'r amseriad a'r weithdrefn mewn perthynas â dewis a wneir o dan gymal 9 ac yn pennu'r hyn y mae'n rhaid i'r cyfryw reoliadau ei gynnwys a'r hyn a allai'r cyfryw reoliadau ei gynnwys. Mae cymal 11 yn darparu y caiff rheoliadau cynllun a wneir yn rhinwedd cymal 9 wneud darpariaeth ynglŷn ag achosion pan na wnaed unrhyw ddewis cyn y terfynau amser penodedig.

Cymal 16 (Pwerau i leihau neu hepgor rhwymedigaethau)

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer cynllun gwaddol Pennod 1 sy'n gwneud darpariaeth lle mae rhwymedigaeth ar unigolyn i ad-dalu buddiannau a ordalwyd neu dalu cyfraniadau a dandalwyd yn cael ei lleihau neu ei hepgor.

Cymal 17 (aelodau credyd Pensiwn)

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chynllun Pennod 1 sy'n gwneud darpariaeth ynglŷn â'r buddiannau sy'n daladwy i aelod credyd pensiwn perthnasol a'r aelod dyled pensiwn cyfatebol neu mewn perthynas ag ef. DS mai ystyr "aelod credyd pensiwn" yw cyn-briod neu gyn-bartner sifil aelod o gynllun ("aelod dyled pensiwn") sydd â'r hawl i gael rhywfaint o bensiwn yr aelod hwnnw o dan setliad ysgaru.

Cymal 18 (Cyfraniadau gwirfoddol)

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chynllun Pennod 1 sy'n gwneud darpariaeth ynglŷn ag unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol y mae aelodau wedi eu cael drwy wneud cyfraniadau ychwanegol yn ystod y cyfnod adferadwy.

Cymal 19 (Trosglwyddiadau)

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chynllun Pennod 1 sy'n gwneud darpariaethau ynglŷn â throsglwyddiadau i mewn o gynlluniau pensiwn eraill yn y sector cyhoeddus neu bensiwn yn y sector preifat neu drosglwyddiadau allan i gynlluniau pensiwn eraill yn y sector cyhoeddus neu bensiwn yn y sector preifat.

Cymal 20 (Pwerau pellach i wneud darpariaeth ynglŷn ag achosion arbennig)

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chynllun Pennod 1 sy'n gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â nifer o feysydd lle y bydd angen i gynlluniau gymryd camau o bosibl er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn gweithredu yn ôl y bwriad, a hynny er mwyn sicrhau bod aelodau yn cael y buddiannau cywir o dan gynllun gwaddol neu gynllun newydd y byddai wedi bod ganddynt yr hawl i'w cael mewn perthynas â'u gwasanaeth adferadwy.

Cymal 21 (Pŵer i ddigolledu)

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chynllun gwaddol Pennod 1 sy'n gwneud darpariaeth lle mae'n ofynnol i gyflogwr mewn perthynas â'r cynllun ad-dalu rheolwr y cynllun am ddigollediad a dalwyd o dan gymal 21(1).

Cymal 22 (Digolledu anuniongyrchol)

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chynllun gwaddol Pennod 1 sy'n gwneud darpariaeth i reolwyr cynlluniau roi'r hawl i aelodau gael buddiannau ychwanegol pan nad yw'r aelod wedi gallu cael mynediad at y cynllun digolledu o bosibl.

Cymal 23 (Llog a phroses)

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chynllun Pennod 1 sy'n gwneud darpariaeth ynglŷn â sut y caiff llog ei gyfrifo a'i dalu ar symiau sy'n ddyledus gan aelodau i'r cynllun, symiau sy'n ddyledus gan y cynllun i aelodau neu eraill, ac ynglŷn â'r broses o dalu symiau.

Cymal 26 (Datganiadau gwasanaeth adferadwy)

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chynllun gwaddol Pennod 1 sy'n gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i reolwr y cynllun roi gwybodaeth i aelodau sydd â gwasanaeth adferadwy ynglŷn â'u buddiannau o dan y cynllun gwaddol a'r buddiannau a fyddai ar gael pe bai dewis yn cael ei wneud o dan gymal 7 neu 11.

Cymal 28 (Cymhwyso pennod at achosion o niwed uniongyrchol)

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chynllun Pennod 1 sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r rhai sydd wedi cael budd o unioni niwed uniongyrchol (fel y'i diffiniwyd yng nghymal 29) er mwyn sicrhau na chaiff eu buddiannau eu cywiro ddwywaith drwy gael ail gyfle i wneud dewis, a hefyd sicrhau bod amcan y polisi i sicrhau triniaeth gyson yn cael ei gyflawni.

Cymal 34 (Rheoliadau cynllun)

Mae'r cymal hwn yn cynnwys darpariaeth o sylwedd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddefnyddio rheoliadau cynllun (fel y'u diffiniwyd o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013) i ddiwygio cynlluniau gwaddol Pennod 1.

Cymal 76 (Cyfyngu ar gynlluniau sy'n bodoli eisoes)

Mae'r cymal hwn yn diwygio adrannau 18 a 31 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ac yn cau'r cynlluniau gwaddol i groniadau pellach o 1 Ebrill 2022. Mae'n dileu'n ôl-weithredol bŵer gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru i wneud eithriadau i adran 18(1) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013, a gaeodd y cynlluniau gwaddol i groniadau pellach o 1 Ebrill 2015.

Mae cymal 77 yn gwneud darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed mewn perthynas â chymal 76, lle y caiff rheoliadau cynllun barhau i arfer y pwerau a geir yn adrannau 18(5) i 18(8) (a ddiddymwyd) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 i ddarparu eithriadau i gau cynlluniau gwaddol ar 1 Ebrill 2015 yn unig o dan yr amgylchiadau cyfyng a bennwyd gan is-adran (2).

Cymal 79 (Diwygiadau sy'n ymwneud â rheoliadau cynllun)

Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 3 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 (sy'n cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau) er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol, atodol, gysylltiedig neu drosiannol sy'n diwygio unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth a basiwyd cyn neu yn yr un sesiwn â'r Ddeddf hon. Mae is-adrannau (8) a (9) yn diwygio adran 23 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013, sy'n disgrifio'r weithdrefn ar gyfer cymhwyso darpariaeth ôl-weithredol. Pan fo newidiadau sylweddol yn digwydd i bensiwn aelod, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron Senedd Cymru ond mae cymal 79(8) yn cymhwyso eithriad at ddibenion y Bil hwn.

Cymal 80 (Diwygiadau sy'n ymwneud â'r cap ar gostau cyflogwr)

Mae cymal 80(2) yn darparu, ar gyfer achosion pan fyddai cost cynllun fel arall yn mynd y tu hwnt i ffin costau a bennir drwy gyfarwyddiadau'r Trysorlys, caiff cyfarwyddiadau'r Trysorlys ei gwneud yn ofynnol mai dim ond ar ôl i actiwari'r cynllun ardystio bod y camau hynny yn cyflawni'r gost a dargedir ar gyfer y cynllun y caiff camau y cytunwyd arnynt (neu y

penderfynwyd arnynt) gan Weinidogion Cymru i unioni tor amod eu cymryd. Mae hyn yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru a nodir yn y rheoliadau sy'n ymwneud â chynlluniau newydd Pennod 1.

Mae cymal 80(3) yn darparu na ddylai rheoliadau cynllun a wnaed yn flaenorol gan Weinidogion Cymru o dan adran 12(6)(a) neu (b) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 gael unrhyw effaith, ac y dylid eu trin fel pe na baent erioed wedi cael effaith, mewn achos lle mae cost y cynllun yn mynd y tu hwnt i ffin sy'n uwch na'r cap ar gostau cyflogwr yn ôl prisiadau 2016 neu 2017. Diben hyn yw sicrhau na chaiff unrhyw ostyngiadau ym muddiannau'r aelodau eu cymhwyso.

Cymal 83 (Diwygiadau sy'n ymwneud â buddiannau nad ydynt yn ymwneud â chynllun)

Mae'r cymal hwn yn dileu eithriad (o dan adran 3(6)(b) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013) i'r gofyniad yn adran 3(5) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 bod yn rhaid cael cydsyniad y Trysorlys er mwyn i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau cynllun. O ganlyniad, bydd angen cydsyniad y Trysorlys bellach cyn i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau cynllun sy'n ymwneud â gweithwyr tân ac achub.

Cymal 111 (Rheoliadau a chyfarwyddiadau)

Mae'r cymal hwn yn darparu y caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan unrhyw un o ddarpariaethau'r Ddeddf hon wneud darpariaeth ganlyniadol, atodol, gysylltiedig, drosiannol neu arbed, neu ddarpariaeth wahanol ar gyfer achosion neu ddibenion gwahanol.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn

Cyflwynodd Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ddiwygiadau i holl bensiynau'r sector cyhoeddus. Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno cynlluniau newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2015, gydag oedran pensiwn arferol uwch, a buddiannau sy'n cael eu cyfrifo ar enillion a ailbrisiwyd ar sail cyfartaledd gyrfa yn hytrach na chyflog terfynol. Bryd hynny, byddai cynlluniau a oedd yn bodoli eisoes yn cael eu cau.

Roedd adran 18 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 yn caniatáu rheoliadau i beidio â chynnwys categorïau penodol o weithwyr yn y gofyniad i ymuno â'r cynllun newydd. Roedd cytundeb rhwng y Trysorlys a Chyngres yr Undebau Llafur yn cynnig y dylai diogelwch o'r fath fod ar gael i'r rhai a oedd agosaf at yr oedran ymddeol yn eu cynlluniau presennol, a darparodd Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015, ynghyd â'r mwyafrif o'r rheoliadau eraill sy'n ymwneud â chynlluniau yn y sector cyhoeddus ar gyfer y diogelwch trosiannol hwn yn rheolau cynlluniau.

Heriwyd y trefniadau hyn gan grŵp o ddiffoddwyr tân ac, ar wahân, gan grŵp o farnwyr, ac ym mis Rhagfyr 2018 dyfarnodd y Llys Apêl fod y trefniadau diogelwch trosiannol yn anghyfreithlon o ganlyniad i wahaniaethu ar sail oedran.

Mae'r Bil yn ceisio unioni gwahaniaethu o'r fath yng nghynlluniau'r sector cyhoeddus drwy roi pob aelod cymwys yn ôl yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi pe na bai'r gwahaniaethu wedi digwydd. Mae hynny'n golygu rhoi aelodau cymwys yn ôl yn y cynlluniau gwaddol ar

gyfer y cyfnod unioni (1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022). Mae'r Bil hefyd yn cydnabod y bydd rhai aelodau yn well eu byd o bosibl o dan Gynllun 2015 ac mae felly'n caniatáu i aelodau cymwys ddewis rhwng buddiannau Cynllun 2015 neu fuddiannau cynllun gwaddol. Mae'r Bil hefyd yn ymdrin â chanlyniadau anfwriadol darpariaethau o'r fath, er enghraifft caniatáu digolledu am ganlyniadau treth anfwriadol unioni.

Mae'r Bil hefyd yn hepgor y gofyniad i weithredu ar unrhyw achosion o dorri terfyn y cap ar gostau prisio pensiynau sy'n digwydd o ganlyniad i ymgorffori costau unioni yn y broses brisio. Mae rheoliadau cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau i fynd â chost y cynllun yn ôl at y lefel y cytunwyd arni pan fo achos o dorri ffiniau costau a bennwyd. Pe bai terfyn uchaf yn cael ei dorri, byddai angen lleihau buddiannau aelodau neu ostwng eu cyfradd gronni. Mae'r hepgoriad yn golygu na fydd hyn yn angenrheidiol.

Rwyf o'r farn ei bod yn briodol i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru a'i bod yn briodol iddynt gael eu cynnwys yn y Bil hwn.